Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid
FIN(4)-18-14 (Papur 3)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government
www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

# Cyllideb Atodol 2014-2015

Nodyn Esboniadol



Mehefin 2014

ISBN 978 0 7504 9587 5
© Hawlfraint y Goron 2013
WG19016

## Cynnwys


**1. Rhagarweiniad** 2

**2. Y newidiadau allweddol ers Cyllideb Derfynol 2014-15** 3

**3. System Cyfnewid Cyllidebau** 12

**Atodiad 1– Cysoni rhwng Cyllideb Bloc Cymru a'r Dyraniadau Adnoddau yng Nghynnig y Gyllideb** 13

**Atodiad 2 – Geirfa** 18


Dylid anfon unrhyw ymholiadau am gynnwys y ddogfen hon i:
wag-en@mailuk.custhelp.com

## 1. Rhagarweiniad

**1.1** Heddiw, gosododd Llywodraeth Cymru y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2014-15 yn unol â Rheol Sefydlog 20. Mae’r Gyllideb Atodol hon yn cynnig nifer o newidiadau i’r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2014-15 fel y’i cymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') ar 10 Rhagfyr 2013.

**1.2** At ddiben gweinyddol y mae’r Gyllideb Atodol hon yn bennaf. Mae’n gwneud nifer fach o ddyraniadau o’r Cronfeydd Wrth Gefn a gytunwyd ers i’r Gyllideb Derfynol gael ei chymeradwyo. Gwnaed addasiadau i gyllideb DEL Cymru hefyd, i adlewyrchu trosglwyddiadau a symiau canlyniadol a ddaeth i law yn sgil Datganiad Llywodraeth y DU yn yr hydref a’i Chyllideb ym mis Mawrth 2014.

**1.3** Ceir crynodeb o’r newidiadau arfaethedig yn y tablau sydd ym Mhennod 2, Newidiadau Allweddol, yn y Gyllideb Atodol.

**1.4** Mae’r ddogfen hon yn ategu’r Tablau Gweithredu manwl sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

## 2. Y newidiadau allweddol ers Cyllideb Derfynol 2014-15

**2.1** Mae nifer o newidiadau sy'n adlewyrchu'r dyraniadau a ddiwygiwyd ers i'r Cynulliad gytuno ar Gyllideb Derfynol 2014-15 ar 10 Rhagfyr 2013. Mae'r newidiadau yn ymwneud yn bennaf ag addasiadau i'r llinellau sylfaen Adnoddau a Chyfalaf a dyraniadau o'r Cronfeydd.

**2.2** Ceir trosolwg o'r newidiadau allweddol isod.

### Addasiadau i Linellau Sylfaen Adnoddau

#### DEL Adnoddau Cyllidol

- O ganlyniad i benderfyniadau Llywodraeth y DU, mae llinell sylfaen y DEL Adnoddau Cyllidol wedi cynyddu £36,540k, sy'n cynnwys:
  - cynnydd o £29,525k o ganlyniad i symiau canlyniadol sy'n deillio o Ddatganiad Llywodraeth y DU yn hydref 2013;
  - cynnydd o £7,015 o ganlyniad i symiau canlyniadol sy'n deillio o Gyllideb Llywodraeth y DU ym mis Mawrth 2014;

#### Trosglwyddiadau rhynglywodraethol

- Mae sawl addasiad hefyd i'n DEL Adnoddau Cyllidol o ganlyniad i drosglwyddiadau rhynglywodraethol, sy'n adlewyrchu newidiadau mewn cyfrifoldebau llywodraethol. Mae'r addasiadau hyn yn cynnwys:
  - trosglwyddo £5,200k i'r cam gweithredu Cymorth Cyllid i Lywodraeth Leol o fewn y MEG Llywodraeth Leol, o'r Adran Gwaith a Phensiynau, mewn perthynas â chostau gweinyddu Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor;
  - trosglwyddo £168k o'r Adran Addysg a Sgiliau i'r cam gweithredu Addysg Uwch o fewn y MEG Addysg a Sgiliau, i ariannu myfyrwyr o Gymru sy'n dilyn cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon y Brifysgol Agored;
  - trosglwyddo £100k o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i'r cam gweithredu Tribiwnlysoedd o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu,

mewn perthynas â diddymu’r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd.

### DEL Adnoddau Anghyllidol

- Nid oes unrhyw newidiadau i linell sylfaen y DEL Adnoddau Anghyllidol.

## Addasiadau i'r Llinellau Sylfaen Cyfalaf

### DEL Cyfalaf

- O ganlyniad i benderfyniadau Llywodraeth y DU, mae’r llinell sylfaen DEL Cyfalaf wedi cynyddu £17,710k, gan gynnwys:
    - cynnydd o £4,025k o ganlyniad i symiau canlyniadol sy’n deillio o Ddatganiad Llywodraeth y DU yn hydref 2013;
    - cynnydd o £13,685k o ganlyniad i symiau canlyniadol sy’n deillio o Gyllideb Llywodraeth y DU ym mis Mawrth 2014;

### Trafodion Ariannol

- Yn ogystal â hynny, mae pŵer gwariant cyfalaf Llywodraeth Cymru wedi cynyddu £5,980k arall. Mae'r arian hwn wedi'i neilltuo ar gyfer trafodion ariannol, a dim ond ar gyfer benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti y gellir ei ddefnyddio. Hefyd, bydd angen ad-dalu'r rhan fwyaf o'r arian hwn i'r Trysorlys.

## Newidiadau i Gyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

**2.3** Mae’r cyllidebau AME a nodir yn y Gyllideb Atodol hon yn adlewyrchu’r rhagolygon diweddaraf a ddarparwyd i Drysorlys EM. Mae’r addasiadau a wnaed ers cymeradwyo’r Gyllideb Derfynol yn cynnwys:

- Cynnydd o £14,605k i’r gyllideb AME Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i adlewyrchu’r rhagolygon diweddaraf o ran darpariaethau ac amhariadau yn y GIG;
- Cynnydd o £1,150k i gyllideb AME yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i adlewyrchu’r rhagolygon diweddaraf ar gyfer amhariad i’r rhwydwaith ffyrdd;

- Cynnydd o £37,998k i’r gyllideb AME Addysg a Sgiliau, gan gynnwys cynnydd o £16,314k mewn AME Adnoddau a chynnydd o £21,684k mewn AME Cyfalaf. Mae’r rhagolygon hyn yn adlewyrchu’r rhagolygon diweddaraf ar gyfer Benthyciadau Myfyrwyr;
- Cynnydd o £2,000k i’r gyllideb AME Tai ac Adfywio ar gyfer Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai.

## Dyraniadau o’r Cronfeydd Wrth Gefn

**2.4** Mae’r Gyllideb Atodol yn gwneud sawl dyraniad o’r Cronfeydd Wrth Gefn, ac mae hynny’n cyd-fynd â chyhoeddiadau blaenorol a wnaed gan Lywodraeth Cymru. Ceir crynodeb o'r rhain isod.

### DEL Adnoddau Cyllidol

- Trosglwyddwyd £17,423k i MEG yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar gyfer mesurau Trethi Annomestig.
- Trosglwyddwyd £12,101k i’r MEG Addysg a Sgiliau i gefnogi Cronfa Her Ysgolion Cymru.

### DEL Cyfalaf

**2.5** Dyrannwyd Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn yn unol â’r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Mae’r Gyllideb Atodol hon yn darparu £18,000k yn ychwanegol i gefnogi’r blaenoriaethau hyn.

**2.6** Mae’r gyllideb hon yn dyrannu £18,000k i nifer o gynlluniau yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd ein buddsoddiad ychwanegol yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau iechyd cynaliadwy a fforddiadwy. Mae’r dyraniadau hyn yn cynnwys:

- Gweledigaeth Iechyd Abertawe

  Bydd dyraniad o £9.5 miliwn yn helpu i ailddatblygu gwasanaethau iechyd yn Abertawe. Mae’r buddsoddiad parhaus hwn yn seilwaith

iechyd y Ddinas yn cynnwys parhau i wella ystad y GIG gyda golwg ar ddarparu gwasanaethau mwy integredig a chytbwys.

- Gwasanaethau Newyddenedigol Hywel Dda

  Caiff £3 miliwn ei ddyrannu o'r cronfeydd wrth gefn er mwyn helpu i gyflwyno newidiadau i wasanaethau mamolaeth, obstetreg, newyddenedigol a phediatreg Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda.

  Mae Cam 1 y datblygiad yn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn gallu ymdopi â'r galw cynyddol am wasanaethau obstetreg, newyddenedigol a phediatreg ar safle Ysbyty Glangwili. Bydd hefyd yn darparu unedau dan arweiniad bydwragedd yn Ysbyty Glangwili ac Ysbyty Llwynhelyg.

- Canolfan Gwasanaethau Diagnosteg Cwm Taf

  Dyraniad o £2 filiwn fel y gall Ysbyty Brenhinol Morgannwg ddatblygu canolfan ar gyfer gwasanaethau diagnosteg a gofal dydd er mwyn cefnogi'r rhwydwaith ehangach o ysbytai o fewn Cynghrair Canol De Cymru.

  Bydd y dyraniad hwn yn talu am ddarparu offer diagnosteg ychwanegol er mwyn lleihau amseroedd aros yn unol â'r safonau ar gyfer Cymru, trin rhagor o gleifion a gwella gwasanaethau'r Galon a Cholonograffi.

- Gwasanaeth Adalw Meddygol Brys

  Bydd dyraniad o £1 filiwn yn helpu i gefnogi Cam 1 datblygu'r Gwasanaeth Adalw Meddygol Brys a fydd yn darparu gwasanaeth trafnidiaeth integredig ar gyfer oedolion, cleifion pediatreg a chleifion newyddenedigol ledled Cymru. Bydd y dyraniad hwn yn cyfrannu at y costau seilwaith sydd eu hangen i gefnogi'r gwasanaeth, a ddarperir gan gyfuniad o hofrenyddion a cherbydau ffordd.

- Diagnosteg

  Dyraniad o £2.5 miliwn i leihau amseroedd amser yn gyflymach a chynyddu mynediad drwy gaffael amrywiaeth o offer diagnosteg a delweddu ar draws GIG Cymru.

Bydd angen cymeradwyo achos busnes llawn ar gyfer pob un o'r buddsoddiadau uchod.

**2.7** Yn nhablau 1.1 i 1.4 gellir gweld effaith net yr holl newidiadau a restrir uchod.

**Tabl 1.1 - Dyraniad DEL Cymru - y Gyllideb Atodol**

| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)** | | **£000oedd** | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Cyllideb 2014-15** | **Newidiadau** | **Cyllideb Ddiwygiedig 2014-15** |
| **Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | | 6,378,630 | 18,000 | 6,396,630 |
| Llywodraeth Leol | | 4,591,813 | 5,200 | 4,597,013 |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | | 212,696 | 0 | 212,696 |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | | 933,239 | 17,423 | 950,662 |
| Addysg a Sgiliau | | 1,771,008 | 12,269 | 1,783,277 |
| Cyfoeth Naturiol a Bwyd | | 415,710 | 0 | 415,710 |
| Tai ac Adfywio | | 535,639 | 0 | 535,639 |
| Diwylliant a Chwaraeon | | 137,160 | 0 | 137,160 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | 345,883 | 100 | 345,983 |
| **Cyfanswm a Ddyrannwyd i Adrannau Llywodraeth Cymru** | | **15,321,778** | **52,992** | **15,374,770** |
| Cronfeydd Adnoddau | DEL Adnoddau Cyllidol | 145,976 | 7,016 | 152,992 |
| | DEL Adnoddau Anghyllidol | 91,534 | 0 | 91,534 |
| Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn | | 6,928 | 5,690 | 12,618 |
| Comisiwn y Cynulliad | | 50,598 | 0 | 50,598 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | | 5,974 | 0 | 5,974 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | | 4,247 | 0 | 4,247 |
| Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | | 672 | 0 | 672 |
| **Cyfanswm Gwariant yng Nghyllideb DEL Cymru** | | **15,627,707** | **65,698** | **15,693,405** |

### Tabl 1.2 – Newidiadau i DEL Adnoddau Llywodraeth Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | £000oedd | | | £000oedd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adnoddau Cyllidol | | | Adnoddau Anghyllidol | | |
| | Cyllideb 2014-15 | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig 2014-15 | Cyllideb 2014-15 | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig 2014-15 |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 5,926,580 | 0 | 5,926,580 | 170,000 | 0 | 170,000 |
| Llywodraeth Leol | 4,568,486 | 5,200 | 4,573,686 | 407 | 0 | 407 |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 192,246 | 0 | 192,246 | 0 | 0 | 0 |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 403,243 | 17,423 | 420,666 | 110,000 | 0 | 110,000 |
| Addysg a Sgiliau | 1,510,243 | 12,269 | 1,522,512 | 106,931 | 0 | 106,931 |
| Cyfoeth Naturiol a Bwyd | 298,730 | 0 | 298,730 | 3,340 | 0 | 3,340 |
| Tai ac Adfywio | 169,269 | 0 | 169,269 | 0 | 0 | 0 |
| Diwylliant a Chwaraeon | 117,439 | 0 | 117,439 | 3,677 | 0 | 3,677 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 302,570 | 100 | 302,670 | 16,000 | 0 | 16,000 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i Adrannau Llywodraeth Cymru** | **13,488,806** | **34,992** | **13,523,798** | **410,355** | **0** | **410,355** |

**Tabl 1.3 – Newidiadau i DEL Cyfalaf Llywodraeth Cymru**

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| | **Cyllideb 2014-15** | **Newidiadau** | **Cyllideb Ddiwygiedig 2014-15** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 282,050 | 18,000 | 300,050 |
| Llywodraeth Leol | 22,920 | 0 | 22,920 |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 20,450 | 0 | 20,450 |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 419,996 | 0 | 419,996 |
| Addysg a Sgiliau | 153,834 | 0 | 153,834 |
| Cyfoeth Naturiol a Bwyd | 113,640 | 0 | 113,640 |
| Tai ac Adfywio | 366,370 | 0 | 366,370 |
| Diwylliant a Chwaraeon | 16,044 | 0 | 16,044 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 27,313 | 0 | 27,313 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i Adrannau Llywodraeth Cymru** | **1,422,617** | **18,000** | **1,440,617** |

### Tabl 1.4 – Cyllideb AME Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| | Cyllideb 2014-15 | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig 2014-15 |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 166,095 | 14,605 | 180,700 |
| Llywodraeth Leol | 24,488 | 0 | 24,488 |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 0 | 0 | 0 |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 48,946 | 1,150 | 50,096 |
| Addysg a Sgiliau | 214,084 | 37,998 | 252,082 |
| Cyfoeth Naturiol a Bwyd | 2,900 | 0 | 2,900 |
| Tai ac Adfywio | -71,000 | -2,000 | -73,000 |
| Diwylliant a Chwaraeon | 2,740 | 0 | 2,740 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 2,070 | 0 | 2,070 |
| **Cyfanswm Cyllideb AME Llywodraeth Cymru** | **390,323** | **51,753** | **442,076** |

## 3. System Cyfnewid Cyllidebau

**3.1** Yn Ail Gyllideb Atodol 2013-14, roedd gan Lywodraeth Cymru £50,771k o DEL Adnoddau Cyllidol a £7,749k o DEL Cyfalaf yn ei chronfeydd wrth gefn, a oedd yn cynnwys £1,294k o gyllid trafodion ariannol. Bydd y symiau hyn, ynghyd ag unrhyw danwariant yn erbyn y dyraniadau a nodir yn y gyllideb honno, yn cael eu dwyn ymlaen i 2014-15 o dan y System Cyfnewid Cyllidebau.

**3.2** Caiff manylion union symiau'r DEL Adnoddau Cyllidol a'r DEL Cyfalaf sydd i'w dwyn ymlaen o 2013-14 eu cadarnhau ar ôl cwblhau Cyfrifon Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 ac wedi iddynt gael ei hadlewyrchu yn yr Adroddiad Alldro Terfynol. Caiff addasiadau i’r llinell sylfaen i adlewyrchu’r swm terfynol a ddygir ymlaen eu gwneud yn nes ymlaen yn y flwyddyn drwy broses Amcangyfrif Atodol y Deyrnas Unedig.

## Atodiad 1– Cysoni rhwng Cyllideb Bloc Cymru a’r Dyraniadau Adnoddau yng Nghynnig y Gyllideb

Mae’r ddogfen hon yn ategu Cynnig y Gyllideb Atodol, sy’n nodi’r newidiadau yn yr adnoddau y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig eu defnyddio yn 2014-15, yn ogystal â’r arian parod y mae’n ceisio awdurdod i’w dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae’r tablau yn yr adroddiad hwn yn dangos cyllidebau ar sail weinyddol, ond ffigurau ar sail adnoddau yw’r ffigurau yng Nghynnig y Gyllideb Atodol.

Mae cyllideb weinyddol Llywodraeth Cymru yn cynnwys nifer o eitemau sy’n cael eu sgorio y tu allan i gyfrifon Llywodraeth Cymru, ac felly nid ydynt yn sgorio fel rhan o’r Adnoddau sy’n Ofynnol gan Weinidogion Cymru. Mae’r Atodiad hwn yn cysoni cyllidebau gweinyddol ac adnoddau pob Prif Grŵp Gwariant.

### Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

| | 2014-15 |
|---|---|
| **DEL** | |
| Adnoddau | 6,096,580 |
| Cyfalaf | 300,050 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | |
| Adnoddau | 180,700 |
| Cyfalaf | 0 |
| **TME** | **6,577,330** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | |
| Adnoddau a Ddefnyddir gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Chyrff y GIG | -280,700 |
| Benthyca â Chymorth | -3,602 |
| Derbyniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol (a'r costau casglu) | -942,891 |
| **Yr Adnoddau y Gwnaed Cais Amdanynt** | **5,350,137** |

## Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

| | 2014-15 |
|---|---:|
| **DEL** | |
| Adnoddau | 4,574,093 |
| Cyfalaf | 22,920 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | |
| Adnoddau | 24,488 |
| Cyfalaf | 0 |
| **TME** | **4,621,501** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | |
| Ardreth Annomestig Cenedlaethol sy'n Daladwy (a chostau casglu) | -1,046,172 |
| Benthyca â Chymorth | -400 |
| **Yr Adnoddau y Gwnaed Cais Amdanynt** | **3,574,929** |

## Cymunedau a Threchu Tlodi

| | 2014-15 |
|---|---:|
| **DEL** | |
| Adnoddau | 192,246 |
| Cyfalaf | 20,450 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | |
| Adnoddau | 0 |
| Cyfalaf | 0 |
| **TME** | **212,696** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | |
| | |
| **Yr Adnoddau y Gwnaed Cais Amdanynt** | **212,996** |

## Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

| | 2014-15 |
|---|---|
| **DEL** | |
| Adnoddau | 530,666 |
| Cyfalaf | 419,996 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | |
| Adnoddau | 50,096 |
| Cyfalaf | 0 |
| **TME** | **1,000,758** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | |
| Benthyca â Chymorth | -10,336 |
| Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | -1,677 |
| PFI | -7,786 |
| **Yr Adnoddau y Gwnaed Cais Amdanynt** | **980,959** |

## Addysg a Sgiliau

| | 2014-15 |
|---|---|
| **DEL** | |
| Adnoddau | 1,629,443 |
| Cyfalaf | 153,834 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | |
| Adnoddau | -86,240 |
| Cyfalaf | 338,322 |
| **TME** | **2,035,359** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | |
| Adnoddau a Ddefnyddir gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | -6,082 |
| Benthyca â Chymorth | -33,781 |
| **Yr Adnoddau y Gwnaed Cais Amdanynt** | **1,995,496** |

## Cyfoeth Naturiol a Bwyd

| | 2014-15 |
|---|---|
| **DEL** | |
| Adnoddau | 302,070 |
| Cyfalaf | 113,640 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | |
| Adnoddau | 2,900 |
| Cyfalaf | 0 |
| **TME** | **418,610** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | |
| Adnoddau a Ddefnyddir gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | -5,990 |
| Benthyca â Chymorth | -9,741 |
| **Yr Adnoddau y Gwnaed Cais Amdanynt** | **402,879** |

## Tai ac Adfywio

| | 2014-15 |
|---|---|
| **DEL** | |
| Adnoddau | 169,269 |
| Cyfalaf | 366,370 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | |
| Adnoddau | -73,000 |
| Cyfalaf | 0 |
| **TME** | **462,639** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | |
| Benthyca â Chymorth | -31,340 |
| **Yr Adnoddau y Gwnaed Cais Amdanynt** | **431,299** |

## Diwylliant a Chwaraeon

| | 2014-15 |
|---|---:|
| **DEL** | |
| Adnoddau | 121,116 |
| Cyfalaf | 16,044 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | |
| Adnoddau | 2,740 |
| Cyfalaf | 0 |
| **TME** | **139,900** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | |
| Adnoddau a Ddefnyddir gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth | -6,008 |
| **Yr Adnoddau y Gwnaed Cais Amdanynt** | **133,892** |

## Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

| | 2014-15 |
|---|---:|
| **DEL** | |
| Adnoddau | 318,670 |
| Cyfalaf | 27,313 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | |
| Adnoddau | 2,070 |
| Cyfalaf | 0 |
| **TME** | **348,053** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | |
| Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | -78 |
| **Yr Adnoddau y Gwnaed Cais Amdanynt** | **347,975** |

## Atodiad 2 – Geirfa

| | |
|---|---|
| **Adnoddau** | Gwariant cyfredol, er enghraifft arian i dalu cyflog gweithwyr y sector cyhoeddus ac i brynu nwyddau a gwasanaethau traul. |
| **Adolygiad o Wariant** | Bob dwy neu dair blynedd mae Trysorlys ei Mawrhydi yn adolygu gwariant pob un o Adrannau Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y tair blynedd ganlynol. Mae cyllidebau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy gyfrwng Fformiwla Barnett. |
| **Cam Gweithredu** | O fewn pob Maes Rhaglen Wariant (SPA), dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu. Mae tablau sy'n dangos cyllidebau ar lefel y Camau Gweithredu ar gael yn:<br><br>http://wales.gov.uk/about/budget/? skip=1&lang=cy |
| **Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru** | Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol gofyn i Gronfa Gyfunol Cymru ei dalu'n uniongyrchol ac felly nad yw'n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru nac unrhyw gorff arall. Ymhlith y Costau Uniongyrchol mae cyflog y Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol. |
| **Cronfa Gyfunol Cymru** | Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn unol â phleidlais Senedd y DU. |
| **Cwmpasoedd** | Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wario adnoddau arnynt. Mae Disgrifiadau o'r Cwmpasoedd a'r terfynau o ran adnoddau wedi'u cynnwys yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r Prif Grwpiau Gwariant. |
| **Cyfalaf** | Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae gan gyllidebau DEL a Gwariant a Reolir yn Flynyddol Llywodraeth Cymru derfynau gwahanol ar gyfer cyfalaf a refeniw. |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | Cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol yn ogystal â'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol. |

| | |
|---|---|
| **Cyllidebu adnoddau** | Mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllideb adnoddau yn cynnwys ffi am ddibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd. |
| **Cynnig y Gyllideb** | Y dull a ddefnyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig ac i dynnu arian parod hyd at derfyn penodol o Gronfa Gyfunol Cymru. |
| **DEL Adnoddau Anghyllidol** | Costau sy'n daladwy ac a gynhwysir mewn cyllidebau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu cost economaidd lawn gweithgareddau er nad oes cysylltiad uniongyrchol â ffrydiau arian parod yn y cyfnod dan sylw – er enghraifft, dibrisiant a darpariaethau. Ni ellir defnyddio DEL adnoddau anghyllidol i gyllido gwario DEL adnoddau cyllidol. |
| **DEL Adnoddau Cyllidol** | mesurau croniadau sydd fel rheol yn troi'n ffrwd arian parod yn fuan, er enghraifft cyflog, caffael cyfredol, grantiau refeniw a chymorthdaliadau. |
| **Derbyniadau** | Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel adnoddau a dderbynnir a chânt eu dangos fel ffigur negyddol. |
| **Dibrisiant** | Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed neu'r ffaith ei fod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o DEL Llywodraeth Cymru ond mae'n eitem DEL adnoddau anghyllidol. |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlflwyddyn yn yr un ffordd â DEL, ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac Adroddiad Rhag-gyllidebol Trysorlys EM. Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr neu'n ymateb i'r galw, er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr. |
| **Maes Rhaglen Wariant (SPA)** | O fewn pob MEG, caiff cyllidebau eu dyrannu i Feysydd Rhaglenni Gwariant yn ôl y math o wasanaethau y byddant yn eu darparu. |

| | |
|---|---|
| **Prif Grŵp Gwariant (MEG)** | Caiff DEL Llywodraeth Cymru ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant. Ar hyn o bryd mae 7 ohonynt: Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant; Llywodraeth Leol a Chymunedau; Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth; Addysg a Sgiliau; Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy; Tai, Adfywio a Threftadaeth; a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)** | Terfyn y gyllideb amlflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennwyd gan Drysorlys EM. Caiff y DEL ei gynllunio a'i reoli ar sail tair blynedd mewn Adolygiadau o Wariant. |